

Gwasanaeth Anabledd Dysgu i Oedolion yng Ngwynedd

Canlyniadau arolwg ymgysylltu â defnyddwyr

Yn ystod yr haf a'r hydref y llynedd, buom yn trafod gyda defnyddwyr ein gwasanaeth anabledd dysgu, ac â'u teuluoedd a'u gofalwyr, gan holi eich barn ar y math o newidiadau y bydd angen eu gwneud yn y dyfodol.

Anfonwyd holiadur atoch, a buom yn cynnal cyfarfodydd mewn gwahanol ardaloedd yn esbonio'r newidiadau y bydd angen eu gwneud yn sgil:

- y nod o sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn gallu byw bywyd mor annibynnol â phosibl gyda'r gefnogaeth gywir
- deddf newydd, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, a ddaeth i rym yn Ebrill 2016
- yr angen i'r gwasanaethau gael eu darparu yn y modd mwyaf effeithiol bosibl – gan fod Cyngor Gwynedd yn cael llai o arian gan y Llywodraeth, mae'n rhaid inni ei wario yn y ffordd orau.

O'r holiaduron a anfonwyd allan, cafodd 25 eu hanfon yn ôl. Daeth cyfanswm o 25 o bobl hefyd i gyfarfodydd a drefnwyd ym Mhwllheli, Porthmadog, Dolgellau, Caernarfon, Bethesda a Bangor.

Bwriad y ddogfen hon yw

1. Trafod y mathau o newidiadau y bydd eu hangen am y rhesymau a nodir uchod.
2. Cyflwyno crynodeb o'r mathau o ymatebion a gafwyd, ar y ffurflenni ac yn y cyfarfodydd.
3. Awgrymu camau nesaf ar gyfer symud ymlaen.

Rhan I

Yr angen am newid

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i rym ym mis Ebrill, mae yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar gynghorau fel Cyngor Gwynedd wrth ddarparu gwasanaethau.

Yn benodol, bydd y Ddeddf yn golygu llais cryfach a mwy o reolaeth i ddefnyddwyr ein gwasanaethau, a hefyd mwy o hawliau i ofalwyr. Fe fydd yn ofynnol inni hefyd helpu pobl i gymryd mwy o ran wrth gynllunio gwasanaethau.

Nod sylfaenol y Ddeddf yw helpu pobl i allu byw mor annibynnol ag sy'n bosibl gyda'r gefnogaeth angenrheidiol. Nid yw hyn yn newydd ynddo'i hun, gan fod hyn eisoes yn un o'n hamcanion allweddol fel Cyngor wrth inni gydweithio â Llywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf newydd yn cadarnhau amcanion o'r fath.

Bydd yn cadarnhau bod pob person sydd ag anabledau dysgu yn ddinasyddion llawn gyda'r un hawliau â phawb arall. Dylai'r Ddeddf atgyfnerthu ein hymdrechion i sicrhau cyfle i bawb, waeth beth fo'u gallu, i gyrraedd eu llawn botensial. Mae arnom eisiau sicrhau bod unigolion yn cyfrannu at eu cymuned ac yn rhan ohoni, a hefyd yn cael cyfle i gael gwasanaethau yn eu cymuned.

Yr hyn sy'n gwneud y dasg yn fwy anodd yw y bydd yn rhaid cyflawni'r newidiadau ar adeg pan mae'r Cyngor yn cael llai o arian gan y Llywodraeth. Er mwyn diogelu'n gwasanaethau felly, fe fydd yn rhaid i'r Cyngor wario'i arian yn y ffordd orau.

Wrth weithio tuag at yr amcanion, mae rhai newidiadau eisoes wedi cael eu gwneud. Mae'r rhain yn cynnwys helpu pobl i gael profiadau gwaith a phrofiadau gwirfoddoli a hefyd cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Rydym hefyd yn gwneud mwy o ddefnydd o offer technoleg cynorthwyol, sy'n helpu'r unigolion i fod yn fwy annibynnol.

Roeddem yn awyddus i gael eich barn am y newidiadau hyn ac am syniadau am newidiadau eraill yn y dyfodol. Mae eich ymateb chi wedi bod yn hynod werthfawr wrth inni geisio paratoi ar gyfer y newidiadau.

Rhan II

A. Yr holiaduron

O'r holiaduron a gafodd eu hanfon allan, cafodd 25 eu dychwelyd.

Roedd y rhai a holwyd yn cael cyfle i ateb wyth cwestiwn i gyd. Roedd y cwestiwn cyntaf yn ymwneud â disgrifiad neu swyddogaeth y sawl oedd yn ymateb; cwestiynau 2, 3, 4 a 5 yn rhai aml-ddewis trwy dicio blychau; cwestiynau 6 a 7 yn gwahodd sylwadau a chwestiwn 8 yn gofyn am barodrwydd i gymryd rhan mewn ymchwil pellach.

Gan ymdrin â phob cwestiwn yn ei dro:

1. Fel pwyr rydych chi'n ymateb i'r holiadur yma?

O'r 25 a ymatebodd, roedd 8, sef bron i draean (32%) yn ddefnyddwyr eu hunain, a pherthynas, gofalwr neu ffrind oedd 11 o'r lleill (44% o'r cyfanswm). O'r rhai ar ôl, roedd 3 yn aelodau o staff yn gweithio yn y sector iechyd gofal a lles, 1 yn aelod o staff Cyngor Gwynedd, 1 yn ddefnyddiwr gwasanaeth o dan 18 oed, a gwrthododd 1 ag ateb.

2. A ydych yn deall y tri rheswm pam fod angen newid sut mae gwasanaethau anabledd dysgu yn cael eu darparu?

Er mwyn asesu dealltwriaeth yr ymatebwyr, gofynnwyd iddyn nhw ateb y tri chwestiwn ar wahân.

Atebodd 23 allan o'r 25 (92%) eu bod yn deall y rheswm cyntaf a roddwyd, sef sicrhau bod pawb yn gallu byw bywyd mor annibynnol â phosibl. Un yn unig a ddywedodd nad oedd yn deall, a gwrthododd un arall ag ateb.

Roedd y gyfran a nododd eu bod yn deall y ddau reswm arall rywfaint yn îs.

Dywedodd 18 (72%) eu bod yn deall yr ail reswm, sef cydymffurfio â chyfraith gwlad. Dywedodd 4 (18%) nad oedden nhw'n deall, doedd dim barn gan 2 (8%), ac ni chafwyd ateb gan un.

Dywedodd 19 (76%) eu bod yn deall y trydydd rheswm, sef yr angen i ymateb i'r her ariannol. Dim ond dau (8%) a ddywedodd nad oedden nhw'n deall. Roedd dau heb farn a dau arall heb ateb.

3. A ydych yn deall amcanion y Cyngor ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu yn y dyfodol?

Wrth holi a oedden nhw'n deall amcanion y Cyngor, cynigiwyd pum ateb, a gwelwyd bod cyfran uchel yn deall pob un o'r rhain.

Dyweddodd 22 allan o 25 (88%) eu bod yn deall yr amcan cyntaf, sef cynnig gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl.

Roedd 21 (84%) yn deall yr amcan o gynnig gwasanaethau sy'n galluogi pobl i gyrraedd eu gwir botensial

Roedd 22 (88%) hefyd yn deall yr amcan o ganolbwyntio ar sgiliau a chryfderau pobl i allu byw mor annibynnol â phosibl.

Roedd cyfran ychydig yn llai (76%) yn deall y nod o dargedu gwasanaethau ac adnoddau prin ar gyfer y bobl sydd fwyaf eu hangen, gyda 3 (12%) heb fod yn deall, 2 heb ddim barn ac 1 heb ateb.

Roedd 84% yn deall y nod o annog a chefnogi cymunedau lleol i wneud cymaint â phosibl.

4. Beth yw eich barn am y newidiadau canlynol sydd eisoes wedi eu gwneud?

Wrth holi barn ar y newidiadau sydd eisoes wedi eu gwneud, cynigiwyd pedair enghraifft i'r ymatebwyr allu eu disgrifio fel Da iawn, Da, Drwg, Drwg iawn, Dim barn neu Ddim yn gwybod/deall.

Roedd yr ymateb yn bur gadarnhaol i'r newid cyntaf – sef helpu pobl i gael gwaith gyda busnesau lleol yn y gymuned. Roedd 80% yn credu bod hyn naill ai'n beth da neu dda iawn (44% da iawn, 36% da). Dim ond un a gredai ei fod yn beth drwg.

Er bod y nod yn cael ei ganmol, mynegwyd rhai pryderon. Dywedodd un y byddai ar lawer o fusnesau angen cymorth ariannol cyn y byddent yn gallu cymryd person ag anableddau dysgu. Roedd un o'r ymatebwyr yn bryderus fod hyn yn codi gobeithion pobl yn ormodol a sylw un arall oedd "syniad gwych, ond costus iawn gan y byddai angen cymorth 1:1.

Roedd y farn yn fwy rhanedig ynghylch defnyddio teleofal a thechnoleg cynorthwyol. Llai na hanner yr ymatebwyr oedd ag unrhyw farn bendant, gyda dim ond un a oedd yn credu bod hyn yn beth drwg. Roedd 7 (28%) yn credu ei fod yn beth da, a 4 (16%) yn credu ei fod yn beth da iawn. Roedd 5 (20%) heb ddim barn, roedd 4 (16%) ddim yn deall a 4 (16%) arall heb ateb.

Dyweddodd un ymatebydd y byddai teleofal yn iawn i rai ond na allai eu mab ei ddefnyddio a dywedodd un arall mai dim ond nifer fach allai fanteisio ar hyn.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn croesawu gweld mwy o wasanaethau cefnogol i bobl mewn grŵp, gyda 7 (28%) yn dweud bod hyn yn beth da iawn a 9 (36%) yn dweud ei fod yn beth da. Dim ond un a oedd yn gweld hyn fel peth drwg, gyda 2 (8%) heb ddim barn, 3 (12%) heb fod yn gwybod neu ddeall a 3 (12%) heb ateb.

Pwysleisiodd mwy nag un, fodd bynnag, na fyddai hyn yn addas i bawb. Roedd un oedd â mab a oedd yn casáu bod mewn grŵp, a dywedodd un arall nad oedd y gweithgareddau grŵp wedi bod mor llwyddiannus gan ei bod yn anodd symblu unigolion a diddordebau gwahanol. Roedd un arall yn derbyn fod hyn yn syniad da, ond yn awyddus i wybod a oedd modd mynd yn ôl at 1:1 os na fyddai'n gweithio.

Ychydig dros hanner oedd yn cymeradwyo datblygu modelau newydd o lety – 5 (20%) Da iawn a 8 (32%) Da. Roedd 2 (8%) yn credu bod hyn y beth drwg, ac 1 (4%) yn credu ei fod yn beth drwg iawn. Roedd cyfanswm o 9 (36%) naill ai heb farn, ddim yn gwybod neu ddeall neu heb ateb.

Sylwadau a gafwyd ynglŷn â'r cwestiwn hwn oedd nad oedd digon o wybodaeth am y modelau hyn a'i bod yn rhy gynnar i allu dweud. Mynegwyd pryder ynghylch "creu ghettos" gan un.

5. Beth yw eich barn am yr atebion posib eraill o sut i ddarparu gwasanaethau anabledd dysgu yn y dyfodol?

Rhoddwyd wyth o ddewisiadau i'r ymatebwyr roi barn arnynt, a chyfle iddynt roi'r un disgrifiadau ag yng nghwestiwn 4.

Cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan i bob un o'r awgrymiadau, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn eu disgrifio naill ai fel rhai Da neu Dda iawn. Roedd amrywiaeth fodd bynnag yn y brwdfrydedd tuag at yr awgrymiadau hyn.

Roedd tri chwarter yr ymatebwyr yn credu bod y syniad o helpu pobl i ymuno gyda grwpiau a gweithgareddau yn y gymuned leol naill ai'n dda neu'n dda iawn (9 -36% da iawn, 10 – 40% da). Roedd 2 (8%) yn credu bod hyn yn beth drwg, a'r gweddill naill ai heb farn neu heb roi ateb.

Fe wnaeth un ymatebydd bwysleisio'r angen am lawer mwy o gymorth a hyfforddiant er mwyn gallu gwneud hyn yn y llwyddiannus. "Angen cefnogaeth addas" oedd sylw un arall, a phwysleiswyd yr angen hefyd i adrannau'r Cyngor gydgysylltu â'i gilydd.

Roedd llai o frwdfrydedd tuag at helpu pobl i drefnu eu gweithgareddau eu hunain o fewn grwpiau. Credai 7 (28%) y byddai hyn yn beth da iawn a 7 (28%) arall y byddai'n beth da. Roedd 3 (12%) fodd bynnag yn credu

bod hyn yn beth drwg, ac 1 yn ddrwg iawn. Roedd 7 (28%) arall naill ai heb farn, ddim yn gwybod neu ddeall neu heb roi ateb.

Yn ôl un ymatebydd, roedd y syniad yn iawn i'r rhai a allai wneud hyn, ond nad oedd yn bosibl i'r rhai â'r anghenion mwyaf dwys. Prinder arian oedd pryder un arall: "Syniad da ond pwy fydd yn ei ddatblygu efo llai o arian yn y gyllideb?"

Roedd ymatebydd arall yn fwy beirniadol: "Be? Unigolion sydd angen cymorth gyda phob agwedd o'u bywyd – sut maent am drefnu gweithgareddau?"

Roedd bron i dri chwarter yn cefnogi'r syniad o ddatblygu cynllun ffrindiau o fewn cymunedau, gyda 10 (40%) yn credu bod hyn yn beth da iawn ac 8 (32%) arall yn credu ei fod yn beth da. Dim ond 1 oedd yn credu bod hyn yn beth drwg, gyda 4 (16%) heb ddim barn, 1 heb fod yn gwybod neu ddeall ac 1 heb ateb.

Roedd diffyg arian yn bryder gan fwy nag un ymatebydd. Dywedodd un fod hyfforddi gwirfoddolwyr yn gostus a bod prinder gwirfoddolwyr. Holodd un arall a oedd digon o ymchwil wedi bod.

O ran y syniad o recriwtio mwy o alluogwyr Cynllun Lleoli Oedolion, roedd mymryn dros hanner (13 – 52%) yn credu bod hyn yn beth da iawn, a 5 arall (20%) yn credu ei fod yn beth da. Nid oedd neb yn gweld hyn fel peth drwg, tra bod 3 (12%) heb ddim barn, 2 (8%) heb wybod neu ddeall, a 2 heb ateb.

Pwysleisiodd un ymatebydd fod angen sicrhau addasrwydd y galluogwyr hyn.

Y syniad a gafodd y croeso mwyaf brwd oedd datblygu cyfleoedd gwahanol i roi ysbaid i deuluoedd a gofalwyr. Credai dros hanner (52%) fod hyn yn syniad da iawn, a 28% arall ei fod yn syniad da, gan roi cyfanswm o 80% o ymatebion cadarnhaol. Nid oedd neb yn credu bod hyn yn syniad drwg, ond roedd 3 (12%) heb ddim barn a 2 (8%) heb ateb.

Dywedodd un fod hyn yn syniad da ond bod arnynt angen gwybod mwy i weld pa mor berthnasol oedd yr hyn fyddai'n cael ei gynnig. Dywedodd un arall y gallai fod yn gostus.

Roedd mwyafrif sylweddol o blaid datblygu cyfleoedd dydd gwahanol hefyd, gyda 52% yn credu bod hyn yn syniad da iawn a 24% yn credu bod hyn yn syniad da. Credai 1 (4%) fod hyn yn syniad drwg, tra bod 2 (8%) heb farn, 1 ddim yn gwybod neu ddeall a 2 heb ateb.

Daeth pryderon ariannol i'r amlwg eto. "Syniad da ond pwy sy'n talu?" oedd cwestiwn un. "Iawn mewn theori ond heb gael ei gwneud yn ddigonol hyd yma" oedd sylw un arall.

Roedd y farn yn fwy rhanedig ynghylch defnyddio mwy o daliadau uniongyrchol fel bod pobl yn gallu dewis a threfnu eu gofal eu hunain. Ychydig dros hanner oedd yn cymeradwyo'r syniad (32% yn ei weld fel rhywbeth da iawn a 20% fel rhywbeth da). Roedd 3 (12%) yn credu bod hyn yn syniad drwg ac 1 (4%) yn syniad drwg iawn. Nododd 4 (16%) hefyd nad oedden nhw'n gwybod neu ddeall y cwestiwn, a pheidiodd 3 (12%) ag ateb.

“Nid taliadau uniongyrchol ydi'r ateb” oedd barn un ymatebydd, a phwysleisiodd un arall yr angen am fwy o ymchwil.

Roedd tipyn o ansicrwydd ynghylch y syniad o ddatblygu modelau llety gwahanol, er nad oedd neb yn gweld hyn fel rhywbeth drwg. Roedd 10 (40%) o'r farn fod hyn yn syniad da iawn a 4 (16%) arall o'r farn ei fod yn beth da. Roedd 3 (12%) heb ddim barn; teimlai 4 (16%) nad oeddent yn gwybod neu ddeall; a pheidiodd 4 (16%) arall ag ateb.

Dywedodd un ymatebydd fod angen mwy o wybodaeth cyn y gallai ateb y cwestiwn, ac roedd un arall yn pryderu bod unrhyw newidiadau'n gallu bod yn drawmatig i bobl ag anabledd dysgu. Dywedodd hefyd ei bod yn rhy gynnar i farnu Pant yr Eithin, gan honni mai dim ond 4 sydd yno hyd yma.

6. Pa syniadau eraill sydd gennych ar y ffordd y gellir darparu gwasanaethau anabledd dysgu yn y dyfodol?

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymatebwyr gynnig eu syniadau eu hunain. Cafwyd ymatebion gan 15, sef 60% o'r rhai a ddychwelodd yr holiadur.

Dyma rai o'r syniadau a gafodd eu cynnig.

- Tripiâu diwrnod a phenwythnosau i ffwrdd – a fyddai'n rhoi toriad rhwng gwyliau
- Tripiâu siopa
- Pêl-droed i'r anabl
- Cyrsiau sgiliau bywyd a gwaith tŷ a thrin arian yn gyfrifol
- Mwy o weithgareddau grŵp a dyddiau allan. Cyfleoedd i gyfarfod pobl fel y Gateway Club.

Fe wnaeth eraill dynnu sylw at anghenion penodol.

Pwysleisiodd un yr angen am fwy o ofal gydag oedolion awtistig, gan ddweud nad oedd grwpiau yn addas ar eu cyfer oherwydd diffyg sgiliau cyfathrebu.

Dywedodd un arall fod angen trin anabledd dysgu ac anabledd corfforol yr un fath, gan awgrymu bod mwy o arian ar gael ar gyfer anabledd dysgu.

Roedd un arall yn canmol y ddarpariaeth at 18 oed, ond yn pryderu bod y bobl ifanc yn cael eu hanghofio wedyn. Dywedodd nad oedd yr un darparwr yn addas i bawb. Gan dderbyn yr angen i hyrwyddo annibyniaeth, dywedodd bod eu perthynas yn cael budd o fod ar brofiad gwaith yn Tesco bob dydd Mawrth.

Diffyg cartrefi addas oedd pryder un defnyddiwr a oedd yn dioddef o Syndrom Asperger. Roedd yn pryderu am y dreth llofftidd ond yn croesawu'r ILF a thaliadau uniongyrchol.

Roedd y sefyllfa ariannol yn peri pryder i fwy nag un.

“Hapus gyda'r ddarpariaeth ond pryderu am y dyfodol” meddai un, gan amau pa mor effeithiol y gall gwirfoddolwyr fod. Dywedodd hefyd ei bod yn anodd barnu beth fydd ei angen heb wybod faint o bres fydd ar gael.

Roedd angen mwy o waith ymchwil ac asesu yn ôl un ymatebydd, a oedd yn dweud nad oedd taliadau'r ILF wedi cael eu trin yn dda hyd yma. Roedd yn dadlau hefyd fod angen atebion gwahanol i wahanol rannau o Wynedd.

Pwysleisiodd un arall fod angen canolbwyntio ar ansawdd a pharhad y gofal, faint bynnag o arian oedd ar gael. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd y berthynas rhwng y client a'r gofalwr.

Roedd un ymatebydd yn cynnig y syniad o sefydlu panel o rieni / perthnasau i drafod dyfodol gwasanaethau. “Dyma'r unig ffordd foddhaol o ymgynghori,” meddai. Dywedodd hefyd fod angen mwy o gysylltiadau rhwng yr adran addysg, a'r adran gofal cymdeithasol, oedolion a lles.

7. Oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu sylwadau eraill?

Roedd llawer o'r un materion yn cael eu codi yn y cwestiwn hwn ag yn y cwestiwn diwethaf.

Roedd angen helpu gweithwyr i ddysgu mwy am awtistiaeth, yn ôl un ymatebydd. Roedd angen staff arbenigol mewn anghenion arbennig, meddai un arall.

Roedd ymatebydd arall yn croesawu cyfnodau ysbaid, ond pwysleisiodd yr angen am gael y gwasanaeth o fewn cyrraedd. Eu profiad nhw oedd gorfod teithio ymhell.

Beirniadaeth un ymatebydd oedd fod y dewisiadau'n ymwneud â phobl ag anableddau dysgu llai dwys. “Bydd y rhai â chyflyrau mwy difrifol angen yr un math o ofal â chynt,” meddai.

Roedd pryderon ariannol yn thema gyson:

“Llawer o’r syniadau’n rhai da, ond angen arian i’w gwireddu,” meddai un. “Mae’n amlwg fod mwy o bwyslais ar wirfoddolwyr, ond o le daw’r gwirfoddolwyr?”

Dywedodd un arall ei fod yn deall yr amcanion, ond sut oedd cyflawni’r uchod gyda llai o arian? “Mae natur cymdeithas wedi newid a chymunedau’n llai parod neu â llai o arian i wirfoddoli,” meddai.

Pwysleisiodd un yr angen i Gyngor Gwynedd ddiogelu’r arian ar gyfer unigolion ag anabledd dysgu.

“Mae annog lled-annibyniaeth yn wych ond rhaid cael y gefnogaeth a gall fod yn ddrud,” meddai. “Pryder meddwl sut mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol am barhau i weithio gyda llai o arian – dewisiadau anodd iawn.”

Wrth arbed arian, roedd angen chwilio am y bobl sydd â’r angen mwyaf, nid y bobl y mae eu rhieni’n llenwi holiaduron, yn ôl un ymatebydd, a oedd yn honni bod “llawer o rieni’n gwaedu’r system”.

Roedd un berthynas yn gofyn am fwy o wybodaeth: “Sut ydych yn cefnogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl? Sut ydych yn gofyn i’r gymuned leol helpu oedolion ag anabledd dysgu?”

8. Os hoffech fod yn rhan o unrhyw waith ymchwil pellach, nodwch eich manylion cyswllt isod os gwelwch yn dda.

Atebodd 14 (56%) y bydden nhw’n fodlon bod yn rhan o waith ymchwil pellach. O’r rhain, rhoddodd 13 eu cyfeiriad, ac 11 eu rhif ffôn, ond dim ond 5 a roddodd gyfeiriad e-bost.